CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd:** Dylan Rees
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Canolbarth Môn

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | Crynodeb o Bresenoldeb |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | Cofnod Bresenoldeb |
| Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Disgyblu | |
| Pwyllgor Grantiau Cyffredinol | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Is-Gadeirydd) | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>- Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | Rydw i'n un o dri o Gynghorwyr Sir Ynys Môn a benodwyd i wasanaethu ar Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru sydd yn monitro perfformiad a chyllideb Gwasanaeth Tân ac |

| | |
|---|---|
| | Achub Gogledd Cymru. Rydw i’n aelod o’r Is-bwyllgor Gweithredol hefyd. Yn y Cyfarfod Blynyddol fis Mai'r llynedd cefais y fraint o gael fy ethol yn Ddirprwy Gadeirydd yr Awdurdod. O ganlyniad, byddaf yn cyfarfod yn rheolaidd â’r Cadeirydd a’r Prif Swyddog i drafod materion strategol a gweithredol. |
| - Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn) | Rydw i’n un o dri o Gynghorwyr Sir Ynys Môn sy’n aelodau o Gyngor Iechyd Cymunedol Gogledd Cymru sydd yn sefydliad annibynnol statudol yn cynrychioli diddordebau cleifion a’r cyhoedd yn y GIG yng Ngogledd Cymru. Er enghraifft, yn ddiweddar cyhoeddodd y Cyngor Iechyd Cymunedol ei adroddiad ei hun am brofiadau pobl o wasanaethau fasgwlaidd yn y rhanbarth yn dilyn adolygiad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar effaith y newidiadau a wnaed ganddynt i’r gwasanaeth hwn h.y. symud y gwasanaethau o Ysbyty Gwynedd i Ysbyty Glan Clwyd. Fel rhan o fy rôl rydw i’n cynorthwyo gydag arddangosfeydd mewn digwyddiadau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth am waith y Cyngor Iechyd Cymunedol. |

| | |
|---|---|
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Bodffordd | Yn ystod y rhan fwyaf o'r llynedd roeddwn yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymuned Bodffordd. O ran perfformiad, mae'r ysgol yn y categori "Melyn" sy'n golygu bod perfformiad yn ystod y 3 blynedd diwethaf yn uwch na'r cyfartaledd. Bu'n flwyddyn anodd i'r ysgol yn dilyn yr ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd yn ddiweddar fel rhan o Raglen Foderneiddio Ysgolion y Cyngor ar gyfer ardal Llangefni (gweler yr adran olaf o dan y pennawd "Gweithgareddau yn yr Etholaeth"). |
| - Llywodraethwr / Canolfan Addysg y Bont, Llangefni | Rydw i'n Is-gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Canolfan Addysg y Bont, sef ysgol yn Llangefni sy'n darparu addysg i blant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae gan y disgyblion ystod eang o anghenion dysgu, gan gynnwys anawsterau dysgu difrifol, anawsterau dysgu dwys a lluosog ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig. Mae niferoedd disgyblion yn yr ysgol yn parhau i gynyddu ac mae cydbwyso'r gyllideb yn parhau i fod yn her sylweddol i'r corff llywodraethu. |
| - Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | Fi yw'r unig Gynghorydd o Ynys Môn a benodwyd i wasanaethau ar Banel Heddlu a Throsedd |

| | |
|---|---|
| | Gogledd Cymru. Rôl y Panel hwn yw monitro perfformiad a chyllideb Comisiynydd Heddlu a Throsedd Heddlu Gogledd Cymru - Mr Arfon Jones. |
| - Panel Mabwysiadu Gwynedd a Môn | Fi yw'r unig Gynghorydd Sir sy'n cynrychioli Gwynedd a Môn ar y Panel hwn. Mae'r Panel yn gyfrifol am y gwaith pwysig o baru plant sy'n barod i gael eu mabwysiadu gyda darpar fabwysiadwyr ac mae'n cyfarfod yn fisol i ystyried achosion unigol. |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Yn ogystal â bod yn aelod o'r pwyllgorau uchod, rydw i hefyd yn mynychu nifer o gyfarfodydd eraill ym mhob rhan o fy ward, gan gynnwys:

**Cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned** - Ym mis Rhagfyr ymddiswyddais fel Cynghorydd ar Gyngor Tref Llangefni ar ôl bod yn aelod am 14 mlynedd. Fodd bynnag, rydw i'n parhau i fynychu cyfarfodydd misol er mwyn cefnogi gwaith y Cyngor Tref yn fy rôl fel Cynghorydd Sir. Hefyd, rydw i wedi derbyn cyfrifoldeb arweiniol o blith tri Chynghorydd Sir Canolbarth Môn am gefnogi Cyngor Cymuned Llanddyfnan a byddaf yn mynychu eu cyfarfodydd misol yn rheolaidd.

**Menter Gymdeithasol Llangefni -** Mae'r Fenter Gymdeithasol hon yn gyfrifol am Barc Chwaraeon Trefol Llangefni ac rydw i'n Gadeirydd y grŵp prosiect. Mae'r Parc yn parhau i fod yn hynod o lwyddiannus ac mae rhwng 80 a 100 o ddefnyddwyr yn ymweld â'r Parc bob dydd i ddefnyddio eu sgwteri, sgliarfyrddau a defnyddio'r gampfa awyr agored a'r cwrt pêl-fasged.

**Gobaith Môn -** Rydw i'n cefnogi'r Elusen hon am resymau personol ac rydw i'n Ysgrifennydd i'r Ymddiriedolwyr. Mae'r sefydliad yn gweithio'n gyfan gwbl â phobl ifanc mewn ysgolion, eglwysi a chymunedau ar draws yr ynys gan geisio darparu ar gyfer eu llesiant a'u cynorthwyo i gyrraedd eu llawn botensial. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae gweithwyr ieuenctid Gobaith Môn wedi bod yn darparu gwersi a gweithgareddau amrywiol mewn pedair o'r pum ysgol uwchradd ar yr Ynys.

**Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Cymru** - Rydw i'n aelod o'r sefydliad hwn sydd wedi gwneud gwaith anhygoel o ran ailgyflwyno cynefinoedd addas er mwyn gwarchod gwiwerod coch cynhenid e.e. Nant y Pandy, Llangefni.

**Parkrun Llangefni –** Mae'n fraint ac yn bleser cefnogi'r fenter hon sy'n hynod o boblogaidd ac mae rhwng 70 a 100 yn cymryd rhan ac yn rhedeg drwy Nant y Pandy bob bore Sadwrn. Yn ogystal â gwirfoddoli unwaith y mis fel stiward, byddaf yn cymryd rhan hefyd (fy amser gorau yw 26.00 munud!).

**Partneriaeth Llangefni** - Rydw i'n aelod o'r Grŵp Adfywio lleol hwn sy'n dod ag unigolion a sefydliadau ynghyd gyda'r nod o adfywio Llangefni.

Yn ogystal â mynychu nifer o gyfarfodydd, mae gennyf lwyth rheolaidd o achosion wrth i mi geisio ymgymryd â gwaith ar ran etholwyr. Mae enghreifftiau o'r achosion yr wyf wedi delio â nhw yn ystod y deuddeg mis diwethaf yn cynnwys:

- Cynllunio – mynegi gwrthwynebiad i rai ceisiadau a chynorthwyo gyda cheisiadau eraill.
- Tai – darparu cyngor ynghylch y polisi gosod a chynorthwyo cleientiaid oedd mewn perygl o gael eu gwneud yn ddigartref neu a oedd eisiau trosglwyddo i dŷ arall.
- Priffyrdd - cynorthwyo gyda chwynion ynghylch goryrru, parcio a chyflwr ffyrdd.
- Rheoli Gwastraff - cynorthwyo achwynwyr mewn perthynas â chasglu gwastraff.
  Diogelwch Cymunedol – gweithio gyda'r Heddlu ac asiantaethau partner eraill i fynd i'r afael â chwynion am fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Iechyd yr Amgylchedd – cwynion am fermin, gwastraff ac eiddo yn dadfeilio.

Yn ogystal, cynhaliais fy arolwg fy hun mewn perthynas ag ymgynghoriad statudol y Cyngor ar y cynnig i newid darpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni fel a ganlyn:

**"Adleoli ac ehangu Ysgol Corn Hir ar safle gwahanol i gymryd disgyblion Ysgol Bodffordd, cau Ysgol Bodffordd ac adolygu dalgylchoedd Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir"**

Fel Is-gadeirydd y Bwrdd Llywodraethwyr ar gyfer Ysgol Gymuned Bodffordd ac fel aelod lleol, roeddwn yn teimlo ei bod yn bwysig i mi gael darlun mor gywir â phosib o beth yn union oedd barn rhieni ynghylch y cynnig hwn. Felly, cynhaliais fy arolwg ffôn fy hun gyda 47 o rieni sy'n anfon eu plant i Ysgol Gymuned Bodffordd ar hyn o bryd. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

**Cadeirydd y Cyngor** – Yn 2018-19 cefais y fraint o wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor Sir a daeth fy nghyfnod yn y swydd i ben ym mis Mai 2019. Yr elusen a ddewisais ei chefnogi oedd Hosbis Dewi Sant a diolch i'r gefnogaeth hael a dderbyniais, llwyddais i godi cyfanswm o £10.502.35. Bydd yr arian yn cael ei roi tuag at brosiect i agor is-uned bedwar gwely yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi.

**Comisiwn Tegwch** - yn Hydref 2019, daeth nifer o unigolion a sefydliadau ynghyd i drefnu cynhadledd i archwilio'r syniad o Gomisiwn Tegwch ac i ystyried a allai Ynys Môn elwa o gael un. O ganlyniad, rydw i'n aelod o grŵp llywio a gomisiynwyd i archwilio lefel y gefnogaeth, ei ymarferoldeb a'r cwmpas. Rhan hanfodol o'r gwaith yw casglu barn ystod eang o unigolion a sefydliadau ar yr ynys.

Hyd yma, sefydlwyd 30 o Gomisiynau Tegwch yn Lloegr, yr Alban a Chymru (mae'r unig un yng Nghymru yng Nghasnewydd) ar ôl sefydlu'r un cyntaf yn Islington yn 2010. Edrychir ar Gomisiynau Tegwch fel ffordd o gynorthwyo i leihau tlodi ac anghydraddoldeb ac mae'r mwyafrif wedi llwyddo i gynhyrchu tystiolaeth a data cryf ynglŷn â thlodi ac annhegwch ar lefel leol.

### 4 - Dysgu a Datblygu

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

### 5 - Gweithgareddau a Materion Eraill

Er mwyn i mi wasanaethau fy etholwyr yn y ffordd orau, rydw i'n cydnabod bod angen i mi gynnwys fy hun yn y gymuned gymaint â phosib. Felly, rydw i'n mynychu gwahanol ddigwyddiadau diwylliannol/cymunedol a chyhoeddus e.e.

Digwyddiadau diwylliannol – Cyngerdd cyhoeddi Eisteddfod Môn, Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc, agoriadau gwahanol arddangosfeydd yn Oriel Môn, twrnament Bridge elusen yr Inner Wheel.

Digwyddiadau cymunedol - Rali Ffermwyr Ifanc ym Mona, Cyngherddau/Gwasanaethau Nadolig yn Ysgol Gymuned Bodffordd, Canolfan Addysg y Bont, Neuadd Goffa Bodwrog, Capel y Gad a'r Gwasanaethau Brys, gwobrau prosiect Ffenics i bobl ifanc yng Ngorsaf Dân Llangefni, Ffair Hydref ym maes Sioe Môn, 'Dragon's Lair' yn Ysgol Gyfun Llangefni, Gŵyl Bodffordd. Ymweliadau â Llys Hywel a Thyddyn Môn

Digwyddiadau cyhoeddus – Agor swyddfeydd CAB Ynys Môn yng Nghaergybi, Dyfodol Siop Gymunedol Talwrn, Gwasanaeth Nadolig Coeden Oleuadau yn Eglwys Sant Cyngar, Llangefni. Arddangosfa Llifogydd Llangefni, Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Clwb Pêl-droed Llangefni, Cynhadledd Cymunedau Carbon Isel.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Dylan Rees

| **Cynghorydd Dylan Rees** | **Mehefin 2020** |
|---|---|